Teitl y Swydd: Cynorthwy-ydd Arlwyo

Uned/Ysgol: Arlwyo a Lletygarwch

Gradd: 1 A/B

HERA: FE17

**Prif bwrpas y rôl**

Mae hon yn rôl hanfodol o fewn yr adran Gyllid, gan ganolbwyntio ar optimeiddio’r defnydd o systemau a chefnogi mentrau newid. Mae'r swydd yn allweddol wrth yrru gwelliannau a sicrhau bod galluoedd yn cael eu darparu'n effeithiol o fewn ein seilwaith ariannol. Bydd rôl y Datblygwr Systemau yn cydweithio â'r Uwch dîm Cyllid i arwain y gwaith o wella a datblygu ein systemau cyllid.

**Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol**

1. Darparu safon uchel o ofal cwsmer mewn modd proffesiynol, cwrtais a chyfeillgar.
2. Cadw at y ddeddfwriaeth gyfredol a safonau adrannol sy'n ymwneud ag Iechyd, Diogelwch a Hylendid Bwyd, gan gynnwys y system HACCAP, cofnodi tymheredd a diwydrwydd dyladwy.
3. Cadw at safonau adrannol ym mhob Uned Arlwyo, gan gwmpasu gwasanaeth wrth gownteri neu fyrddau fel y bo'n briodol.
4. Darparu cyngor maethol a dietegol i gwsmeriaid yn seiliedig ar fwydlenni cyfredol.
5. Delio ag unrhyw ymholiadau cwsmeriaid a chymryd camau priodol yn ôl yr angen.
6. Cynorthwyo i baratoi a darparu lletygarwch fel y bo'n briodol.
7. Cynnal safonau ansawdd mewn perthynas â rheoli dognau a chyflwyniad pob eitem.
8. Cadw at ddulliau rheoli stoc a gwerthu a phrisio cywir.
9. Paratoi a choginio bwyd sylfaenol yn ôl yr angen ym mhob uned.
10. I ymgymryd â gweithrediad til.
11. Ymgymryd â dyletswyddau glanhau, gan gynnwys defnyddio'r peiriant golchi llestri fel y'i diffinnir ym mhob Uned Arlwyo.

**Manyleb person**

**Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol**

1. Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol.
2. Y gallu i weithio mewn tîm.
3. Sgiliau cyfathrebu clir.
4. Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant Diogelwch Bwyd.
5. Y gallu i weithio'n hyblyg gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau.

**Dymunol**

1. Tystysgrif hylendid bwyd sylfaenol.

**Gofynion sgiliau Cymraeg**

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau iaith Gymraeg. Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

| Lefel iaith a disgrifiwr cyffredinol | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **A1 – Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | Dymunol | Dymunol | Dymunol | Dymunol |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol**<br>Yn gallu delio â gwybodaeth syml, uniongyrchol a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | | | | |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd**<br>Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | | | | |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br>Gallaf fynegi fy hun yn y Gymraeg ar amrywiaeth o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs gyda siaradwr brodorol. | | | | |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg. | | | | |
| **C2 - Prif ddefnyddiwr** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn y Gymraeg. | | | | |

**Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**
Nid oes angen gwiriad DBS ar gyfer y swydd hon.

**Gwybodaeth ategol**
Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.